Edrychwn ymlaen at adolygu dogfennaeth y Cynllun Gwaith yn y dyfodol i ddeall sut y bydd gweithgareddau ac ymrwymadau'n cael eu mesur a'u meincnodi yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt

Mae'r Cynllun Gwaith arfaethedig yn amlygu pedair blaenoriaeth, gan gynnwys 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnynt'. Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gefnogi twf trwy sicrhau mynediad at gysylltiadau telathrebu sefydlog all drosglwyddo data ar gyfradd gigabit a hyrwyddo gwelliannau mewn cysylltedd dyfeisiau symudol.

Oherwydd topograffeg heriol a phoblogaethau gwasgaredig mewn rhai rhannau gwledig ac anghysbell o Gymru, mae defnyddio seilwaith digidol yn parhau i fod yn anodd. Er ein bod yn cefnogi ymdrechion y diwydiant i wella cysylltedd, mae risg y bydd safleoedd sy'n anodd ac anodd iawn eu cyrraedd yn parhau i fynd ar ei hôl hi, gan ehangu'r gagendor digidol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys llywodraethau, ar yr Adolygiad o Fynediad Telathrebu (TAR). Fel y nodwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, mae'r TAR yn gyfle clir i wella mynediad at fand eang o ansawdd uchel, meithrin mwy o gystadleuaeth a gwella gwydnwch.

Dylai'r Cynllun Gwaith ymrwymo i archwilio ymyriadau rheoleiddiol i fynd i'r afael â'r safleoedd anoddaf eu cyrraedd drwy'r broses TAR, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar ymyriadau sector cyhoeddus yn unig. Dylai Ofcom ystyried sut y gall ei bwerau rheoleiddio ysgogi defnydd masnachol, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ffeibr, i sicrhau bod band eang o ansawdd uchel yn cyrraedd yr ardaloedd hyn.

Er bod y TAR yn amlinellu cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n cael eu gwasanaethu gan sawl darparwr rhwydwaith, nid yw Cymru'n elwa ar yr un dyfnder yn y farchnad a welir mewn mannau eraill yn y DU. Mae hyn yn effeithio ar gystadleuaeth a gwydnwch. Dylai Ofcom archwilio mesurau pellach i ysgogi cystadleuaeth yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gwaith hefyd yn rhoi cyfle i adolygu prisiau Mynediad Goddefol at Seilwaith (PIA) mewn ardaloedd gwledig. Mae'r strwythur presennol o godi tâl fesul metr yn arwain at gostau sylweddol uwch ar gyfer rhwydweithiau amgen (altnets) sy'n gweithredu yng nghefn gwlad Cymru—hyd at 20 gwaith yn ddrytach fesul safle na'u rhwydweithiau trefol cyfatebol. Yn y cyfamser, mae Darparwyr Gwasanaethau Rhyngwryd (ISPs) sy'n seiliedig ar Openreach yn elwa o brisiau cyfartalog cenedlaethol fesul safle. Mae'r anghydbwysedd hwn yn ei gwneud hi'n anoddach i rwydweithiau amgen gystadlu a buddsoddi, gan gyfyngu ar y ddarpariaeth, cystadleuaeth a gwydnwch.

Croesewir gwelliannau i'r swyddogaeth Mapio Eich Ffôn Symudol. Byddai gwelliannau pellach i ansawdd data—yn enwedig mewn perthynas â chapasiti yn ogystal â darpariaeth—yn cefnogi ymdrechion i ddenu buddsoddiad pellach mewn cysylltedd dyfeisiau symudol yng Nghymru.

Credwn fod gan dechnolegau lloeren sy'n mynd yn uniongyrchol i ddyfais botensial cryf i fynd i'r afael â heriau cysylltedd mewn ardaloedd anghysbell. Felly, rydym yn croesawu ymrwymadau i ddarparu mynediad hyblyg i'r sbectrwm i alluogi arloesedd o'r fath.

Rydym hefyd yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo gyda darparwyr cyfathrebu, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â materion sy'n codi o'r broses o symud i linellau tir digidol, gan gynnwys rhoi'r gorau i'r Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus Analog (PSTN). Mae ymgysylltu parhaus â Llywodraeth Cymru yn hanfodol i ddiogelu defnyddwyr a tharfu cyn lleied â phosib.

Mae gwella'r ddarpariaeth 4G a 5G mewn ardaloedd gwledig cyn cael gwared ar 2G yn hanfodol - nid yn unig i ddefnyddwyr ond hefyd ar gyfer seilwaith cenedlaethol allweddol sy'n dibynnu ar 2G ar hyn o bryd. Wrth i'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir ddod i ben, dylai Ofcom ystyried pa gamau pellach y gall eu cymryd i fynd i'r afael â'r manau sy'n parhau i fod heb gyswllt.

Mae datblygiad cyflym technolegau newydd sy'n gallu cyflawni ymrwymadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang yn cynnig cyfleoedd i safleoedd anghysbell. Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal er mwyn sicrhau bod y technolegau hyn yn gallu cynnig dibynadwyedd a pherfformiad sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddir mewn manau eraill.

O ran gwydnwch, mae'r Cynllun Gwaith yn nodi: 'byddwn yn parhau i weithio gyda gweithredwyr symudol, cynrychiolwyr o'r Llywodraeth a'r sector ynni, i benderfynu a oes angen mesurau ychwanegol ar gyfer y rhwydwaith mynediad radio symudol.' Mae digwyddiadau tywydd cynyddol ddifrifol - fel Storm Darragh - wedi arwain at doriadau pŵer hir. Rydym yn cefnogi gwelliannau i wydnwch rhwydweithiau ac yn annog Ofcom i ystyried rôl batris wrth gefn ar gyfer seilwaith dyfeisiau symudol. Heb bŵer wrth gefn, mae mastiau'n methu o fewn munudau, gan darfu ar wasanaethau brys, trafndiaeth, gweithrediadau busnes a diogelwch y cyhoedd. Byddai batris sy'n para'n well yn sicrhau bod cysylltedd hanfodol ar gael yn ystod argyfyngau.

Gwasanaethau Post

Rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Ofcom i sicrhau bod diwygio'r post yn darparu gwasanaeth post fforddiadwy ac effeithlon, wedi'i gyfarparu ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn nodi'r ymgynghoriad arfaethedig ar brisio gwasanaethau post. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen yng Nghymru am wasanaeth post gwydn a chynaliadwy. Rydym yn cytuno bod hyn yn hanfodol i fywyd bob dydd yng Nghymru ac yn helpu i gadw ein cymunedau mewn cysylltiad.

Gall daearyddiaeth Cymru wneud cadw mewn cysylltiad a lleihau ynysu yn heriol, sy'n tanlinellu pwysigrwydd gwasanaeth post dibynadwy.

Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

Rydym yn falch o weld y Post Brenhinol yn parhau i gael ei fonitro fel y darparwr y Gwasanaeth Cyffredinol.

Cyfyngau rydyn ni'n ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

Rydym yn cefnogi'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Gwaith Drafft 202627 gan eu bod yn ymwneud â'r cyfyngau yr ydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi, ac ymdrechion i foderneiddio rheoleiddio tra'n diogelu cynulleidfaoedd yn ystod cyfnod o newid cyflym. Rydym yn nodi'r ffocws ar gynulleidfaoedd Cymru ond byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch ymgorffori ystyriaethau penodol i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys Cymraeg, amlygrwydd cyfyngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM), cyfyngau lleol a chynaliadwyedd. Mae'r flwyddyn i ddod yn un hanfodol i'r sector darlledu. Bydd ymgysylltu parhaus a rhagweithiol â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru yn hanfodol yn ystod y cyfnod hwn, ac rydym yn edrych ymlaen at gydweithio parhaus ar y meysydd gwaith arfaethedig.

Darlledu

Mae'r Cynllun Gwaith yn cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sector darlledu, oherwydd arloesedd technolegol cyflym a'r cynnydd parhaus mewn cynnwys a llwyfannau cyflenwi. Mae ymchwil diweddaraf Ofcom ei hun yn tynnu sylw at sut mae pobl yng Nghymru yn treulio mwy o amser bob dydd yn gwyllo cynnwys fideo gartref (5 awr a 9 munud y dydd, yr uchaf ymhlith cenedloedd y DU), gyda chynnwys teledu gan ddarlledwyr i gyfrif am 56% o'r amser hwn. Er yng Nghymru mai gwyllo byw oedd yr isaf ar draws cenedloedd y DU, roedd gwyllo wedi'i recordio a darlledu fideo ar alw i gyfrif am fwy o wyllo nag yn unrhyw genedl arall. Mae hefyd yn bwysig nodi bod gwylwyr yng Nghymru sy'n 65 oed a hŷn yn gwyllo llawer mwy o deledu a ddarlledir nag unrhyw grŵp oedran arall, cyfartaledd o chwe awr y dydd yn 2024, 38 munud yn fwy nag yn 2023. Er bod y duedd hon yn wir ar draws y tair cenedl, mae canran uwch o boblogaeth Cymru yn 65 oed a throsodd (21.3%) o'i gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon (17%). Felly, mae mathau traddodiadol o wyllo'n parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn dal i gael mynediad at gynnwys PSM, gan gynnwys cynnwys Cymraeg a newyddion dibynadwy, cywir a diduedd. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth edrych ar Adroddiad Cyfyngau diweddaraf Ofcom ar gyfer Cymru, sy'n adrodd bod sianeli darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, i gyfrif am gyfran o 72% o gyfanswm y gynulleidfa teledu a ddarlledir yng Nghymru. Sianeli'r BBC oedd â'r gyfran uchaf o gynulleidfa'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sef 34%, yn uwch nag unrhyw genedl arall. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gydnabod wrth i Ofcom ymgymryd â'i ddyletswyddau

cydgyfeirio yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf ac, wrth iddo gymryd camau i ragweld newidiadau yn y dyfodol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw dueddiadau ac anghenion gwahanol yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ymrwymiad parhaus Ofcom i sicrhau bod cynulleidfaoedd ledled Cymru a'r DU yn gallu cael mynediad at ystod eang o gyfryngau sy'n rhoi gwybodaeth, yn diddanu ac yn adlewyrchu amrywiaeth cymunedau, a digonedd o newyddion sy'n ddiuedd ac y gellir ymddiried ynddo. Mae llwyfannau newyddion traddodiadol fel teledu, print a radio yn parhau i gael eu sgorio'n uwch gan eu defnyddwyr rheolaidd am fod yn ddibynadwy, yn gywir ac yn ddiuedd na'r rhai sy'n defnyddio llwyfannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion. Er gwaethaf hyn, yng Nghymru, y platfform mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd ar gyfer newyddion gan oedolion oedd trwy ffynonellau ar-lein (71%). Rydym yn croesawu gwaith parhaus Ofcom o ran gosod a gorfodi safonau cynnwys, gan gynnwys yr ymrwymiad i ganolbwyntio ar ddiogelu cynulleidfaoedd, yn enwedig defnyddwyr iau, rhag niwed a diogelu rhyddid mynegiant ar draws pob sianel mewn byd sy'n gynyddol anwadal.

Rydym yn nodi gwaith sydd wedi'i gynllunio sy'n ymwneud â gweithrediad parhaus Deddf y Cyfryngau yn 2026/27 a'r ymrwymiad bod sectorau yng Nghymru 'yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf'. Hoffem weld ymrwymiad cryfach yma, lle bo'n briodol, i ymgysylltu mwy ystyrlon ar gynlluniau.

Mae'r mater o amlygrwydd yn un hanfodol i ddarlledu yng Nghymru, ac yn fater yr ydym wedi'i drafod yn rheolaidd gydag Ofcom er mwyn sicrhau bod sianeli a chynnwys sy'n gwasanaethu Cymru a'r cenhedloedd datganoledig eraill yn benodol yr un mor hawdd eu cyrraedd a gweladwy i wylwyr. Felly, rydym yn falch o weld yr ymrwymiad i gyhoeddi cod ymarfer yn y maes hwn erbyn diwedd 2026/27, a chyhoeddi canllawiau ar gytundebau masnachol rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio. Rydym yn nodi pryderon a godwyd gan randdeiliaid yng Nghymru ynglŷn â'r lefel y mae Ofcom yn fodlon ymyrryd mewn trafodaethau a negodiadau gyda chwmnïau a llwyfannau technoleg ar amlygrwydd ar-lein. Wrth i arferion cynulleidfaoedd barhau i esblygu ac i llwyfannau fel YouTube a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddod yn fwyfwy y ffenestr y mae cynnwys yn cael ei wylwio drwyddi, bydd y rôl hon yn dod yn bwysicach. Mae angen ystyried pryderon darlledwyr llai, sydd â llai o bŵer negodi, wrth i Ofcom lywio'r cydbwysedd rhwng hyrwyddo a chefnogi anghenion y sector, hyrwyddo twf economaidd, a diogelu buddiannau defnyddwyr.

Dylai unrhyw fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw sicrhau bod cynnwys Cymraeg, iaith Gymraeg a chynnwys penodol i Gymru yn parhau i fod yn hawdd ei ganfod ac yn amlwg i gynulleidfaoedd. Mae sicrhau bod cynnwys sy'n gwasanaethu'r cenhedloedd datganoledig yn weladwy ac yn hygyrch yn hanfodol ar gyfer cynrychiolaeth ddiwylliannol a diogelu'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg fel y'u nodir yn Cymraeg 2050, ac ymrwymiad Cymru Greadigol i gefnogi cynhyrchu yn y Gymraeg. Rydym yn falch o weld yr ymrwymiad i gyhoeddi Cod Ymarfer drafft yn rhan gyntaf 2026 yn nodi sut y gall gwasanaethau dethol radio fodloni eu dyletswyddau newydd o dan drefn newydd y Ddeddf Cyfryngau ynghylch ffrydiau darlledu radio ar-lein. Mae sicrhau gwasanaethau newyddion a radio lleol cynaliadwy yn hanfodol ar gyfer ymgysylltiad democrataidd a chydlyniant cymunedol yng Nghymru. Rydym yn croesawu gwaith Ofcom ar offer rheoleiddio sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol cynulleidfaoedd a marchnadoedd cyfryngau Cymru.

Adolygiad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM)

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn bwysig iawn i Gymru, gan wneud cyfraniad hanfodol i'n bywyd diwylliannol, economaidd a gwleidyddol. Mae 2025-26 wedi rhoi cyfleoedd cadarnhaol i Lywodraeth Cymru ac Ofcom weithio mewn partneriaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y maes gwaith â blaenoriaeth hwn, drwy ddigwyddiad ar y cyd rhwng Cymru Greadigol ac Ofcom ym mis Ebrill 2025. Byddem yn awyddus i nodi cyfleoedd i adeiladu ar hyn yn 2026-27 wrth i Ofcom fwrw ymlaen â'i waith arfaethedig ar y pedwar prosiect allweddol sy'n ymwneud â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan nodi'r argymhelliad yn Argyfwng Darlledu bod Ofcom, llywodraeth a rhanddeiliaid y sector yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal a chryfhau gweithrediadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Adolygiad o Reoleiddio Darlledu

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio presennol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas wrth i arferion gwylio barhau i newid ac i'r ffyrdd y mae cynnwys yn cael ei wyllo esblygu. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ailedrych a diwygio, lle bo angen, y fframwaith rheoleiddio presennol, yn enwedig o ystyried cyflymder y newid yn y sector.

Er ein bod yn cytuno bod angen newidiadau i gefnogi hyblygrwydd ac arloesedd a buddsoddiad yn y dyfodol, rhaid cydnabod dibyniaeth barhaus ar ffurfiau mwy traddodiadol o wyllo a gwrandao ac ystyried pob effeith posibl. Er enghraifft, dylai unrhyw newidiadau gydnabod hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol a chydabod Cymru fel cenedl ar wahân, gan geisio gwarchod hyrwyddo rhaglenni sy'n adlewyrchu hanes, diwylliant, chwaraeon a materion cymdeithasol Cymru. Dylai newidiadau hefyd gydnabod darpariaeth Gymraeg, gyda diogeliad ar gyfer darlledu Cymraeg, gan nodi effaith dadreoleiddio radio masnachol ar wasanaethau radio Cymraeg. Yn ogystal, rhaid i newidiadau rheoleiddiol sicrhau ffocws parhaus ar sicrhau bod gweithgarwch a buddsoddiad o fudd i'r economi greadigol ledled y DU. Rhaid i bwysigrwydd newyddion a materion cyfoes rhanbarthol ac effaith gofynion rheoleiddio ar economïau a chymunedau lleol hefyd aros wrth wraidd unrhyw ddatblygiadau.

Newyddion a Chanfyddadwyedd

Rydym yn croesawu'r ffocws ar newyddion a chanfyddadwyedd, yn enwedig o ystyried pryderon cyfredol ynghylch camwybodaeth. Wrth i'r defnydd o newyddion ddod yn fwyfwy tameidiog ar draws ystod eang o lwyfannau ac o nifer o ffynonellau, mae gweithredu parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynnwys yn gywir, yn ddiudedd ac yn cael ei reoleiddio'n briodol. Yng Nghymru, ffynonellau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yw rhai o'r prif ffyrdd y mae oedolion yn cael newyddion. Wrth edrych ar grwpiau oedran iau (ar draws cenedloedd y DU), mae llwyfannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol yn llawer mwy cyffredin na ffyrdd mwy traddodiadol o gael mynediad at gynnwys newyddion gydag wyth o bob deg o bobl ifanc 16-24 oed yn defnyddio ar-lein. Gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yw'r brif ffordd o hyd o gael mynediad at newyddion gyda thri chwarter yr holl bobl ifanc 16-24 oed yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Ochr yn ochr â hyn, mae ymddiriedaeth mewn newyddion ar gyfryngau cymdeithasol yn cynyddu ymhlith y grŵp oedran hwn,

gyda chynnydd sylweddol o 45% yn 2024, i 52% yn 2025. Bydd angen i waith Ofcom yn y maes hwn ystyried y gorgyffwrdd cynyddol rhwng ei gylch gwaith darlledu a diogelwch ar-lein.

Bydd ymrwymiad Ofcom i gynnal ymchwil i ymddygiad cynulleidfaoedd o ran canfod ac ymgysylltu â newyddion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys plant ar-lein yn rhoi darlun amhrisiadwy o'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod y ffynhonnell newyddion draddodiadol hon yn parhau i fod mor weladwy ac amlwg â phosibl. Dylid ystyried demograffeg oedran a gofynion iaith Gymraeg cynulleidfaoedd Cymru, ac rydym yn croesawu unrhyw gyfle i weithio gydag Ofcom i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu a bod yr ymchwil yn mynd yn ddigon manwl ar lefel cenedl.

Adolygiad o Siarter y BBC

Mae'r Adolygiad o'r Siarter yn rhoi cyfle i sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn barhaus, gan roi mynediad i gynulleidfaoedd at newyddion, adloniant a chynnwys addysgol dibynadwy. Byddem yn awyddus i weithio gydag Ofcom wrth iddynt gefnogi'r Adolygiad o Siarter y BBC i sicrhau bod anghenion yng Nghymru yn cael eu hystyried.

Dyfodol Dosbarthu Teledu

Wrth i'r defnydd o deledu barhau i esblygu, ni ellir anwybyddu pa mor gyffredin yw teledu wedi'i gysylltu â'r rhyngwrdd mewn cartrefi ledled y cenhedloedd. Yng Nghymru, o'r tair cenedl ddatgan- oledig yn y DU, ni sydd â'r ganran uchaf (88%) o aelwydydd sydd â'u teledu wedi'i chysylltu â'r rhyngwrdd. Fel y nodwyd yn flaenorol, fodd bynnag, mae dibyniaeth yn parhau ar ddulliau traddodiadol o wyllo cynnwys teledu. Mae hyn yn arbennig o wir am gynulleidfaoedd Cymreig ar draws cymunedau yn rhai o ardaloedd mwy gwledig y wlad ac ar gyfer aelwydydd mwy bregus. Fel y nodwyd yn gynharach, mae gan Gymru ganran uwch o'r boblogaeth 65 oed a hŷn, o'i gymharu â chenhedloedd eraill y DU, sydd wedi dangos dibyniaeth ar deledu traddodiadol.

Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad i gefnogi Llywodraeth y DU yn ei hystyriaeth o ddsbarthiad teledu yn y dyfodol a'r ymrwymiad i gynnal cyffredinolrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae'n rhaid ystyried manylion penodol cynulleidfaoedd ar draws yr holl genhedloedd mewn unrhyw drafodaeth yn y dyfodol.

Gwaith Parhaus – Y Flwyddyn i Ddod Nid yw llywodraethu parhaus a gorfodi rheolau safonau cynnwys ar gyfer teledu, radio a gwasanaethau ar alw erioed wedi bod cyn bwysiced er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu. Lluosogrwydd y cyfryngau yw asgwrn cefn unrhyw gymdeithas ddemocrataidd weithredol ac mae diogelu hynny'n hollbwysig er mwyn sicrhau darpariaeth newyddion wybodus a chytbwys. Fodd bynnag, mae tirwedd cyfnewidiol y cyfryngau, nifer yr allfeydd cyfryngau a llwyfannau yn ogystal ag arferion defnyddio sy'n esblygu yn golygu bod angen rheoleiddio cynhwysfawr er mwyn amddiffyn rhag camwybodaeth.

Yn yr un modd, mae rôl Ofcom o ran cynnal didueddrwydd a chywirdeb yn y cyfryngau ac mewn materion cyfoes yn parhau i fod yn flaenllaw o ran disgwyliadau'r cyhoedd, ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymru yn cael eu gwasanaethu'n briodol gan ddarlledwyr, yn enwedig ym mlwyddyn etholiadau'r Senedd a Diwygio'r Senedd.

Ni ellir pwysleisio ddigon bwysigrwydd y sector darlledu i'r economi greadigol yng Nghymru. Gan nodi'r heriau presennol sy'n wynebu busnesau a gweithwyr yn y diwydiannau creadigol, mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i PSM a'r fframwaith rheoleiddio cysylltiedig ledled y DU yn ystyried unrhyw effaith ar yr economi greadigol.

Cefnogi ein cenhadaeth / Materion trawsbynciol

Roeddem yn siomedig nad yw'r sgwrs gynnar arfaethedig ar Gynllun Gwaith Ofcom, fel y cytunwyd arno yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddarau rhwng Llywodraeth Cymru ac Ofcom, wedi digwydd eleni. Byddem yn croesawu ymrwymiad Ofcom i sicrhau bod hyn yn digwydd cyn i'r gwaith ddechrau ar Gynllun Gwaith 2027/28.

Rydym yn galw'n rheolaidd am gynydd yn lefelau staffio Ofcom Cymru a mwy o dryloywder ynghylch nifer y swyddogion sy'n gweithio ar hyn o bryd yn Ofcom Cymru ac i Ofcom yng Nghymru. Bydd mwy o staff yn gweithio yng Nghymru yn sicrhau bod gallu i ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid a thimau mwy a mwy o arbenigwyr, gyda ffocws penodol ar flaenoriaethau, wedi'u lleoli yn swyddfeydd y cenhedloedd yn cefnogi datblygu polisi effeithiol yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r amgylchiadau a'r anghenion unigryw ym mhob rhan o'r DU.

Mae mwy o amrywiaeth o fewn y diwydiant cyfryngau yn parhau i fod yn fater pwysig iawn. Mae galwadau am weithlu mwy amrywiol o flaen a thu ôl i'r camera a chynnwys mwy amrywiol yn parhau yn y diwydiant cyfryngau yng Nghymru wrth i'r boblogaeth ddod yn fwyfwy amrywiol, gydag angen i bob unigolyn gael ei adlewyrchu fel rhan o gymdeithas fwy cynhwysol a modern. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid ac yn gobeithio y bydd yr adroddiad arfaethedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn darparu data defnyddiol ar lefel cenedl.

Mae swyddogaeth ymchwil Ofcom yn hanfodol i'w effeithiolrwydd. Wrth i'r sectorau o fewn ei gylch gwaith barhau i gydyfeirio a chyflymder newidiadau technolegol gynyddu, bydd yn bwysig i Ofcom nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol er mwyn addasu ei ddull o ymchwil yn unol â hynny, er mwyn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer dadansoddiad traws-sector ac er mwyn sicrhau dadansoddiad digonol o'i ganfyddiadau. Dylai hyn gynnwys digon o ddata o ansawdd da a gesglir ar lefel cenedl neu ddemograffig a, lle bo'n briodol, ymchwil sy'n benodol i Gymru, fel ymchwil ar yr iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod gwahanol effeithiau, anghenion, cyfleoedd a heriau'n cael eu hystyried mewn cynlluniau. Byddem yn croesawu mwy o fewnbwn i gynllunio'r ymchwil.

Ymddengys nad oes llawer o ffocws ar gynaliadwyedd a newid hinsawdd fel sail i waith Ofcom. Mae adeiladu economi gryfach a gwyrddach a gwneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion ar sut y gall Ofcom wneud y mwyaf o'i bwerau rheoleiddio presennol er mwyn herio'r diwydiant darlledu ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella cynaliadwyedd.

Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

O fewn Llywodraeth Cymru, rydym yn ystyried Ofcom fel rhanddeiliad allweddol ac yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gadarnhaol sydd gennym gydag Ofcom Cymru. Yn ogystal â'n cyfarfodydd

rheolaidd, yn 2025 mynychodd Ofcom ein Symposiwm blynyddol lle rydym yn dod ag arbenigwyr blaenllaw mewn diogelwch ar-lein at ei gilydd i lywio ein cynlluniau gwaith. Fe wnaethant hefyd gynnal ein Grŵp Ieuenctid Cadw'n Ddiogel Ar-lein ddwywaith yn 2025 – roedd aelodau'n gwerthfawrogi'r cyfle i siarad yn uniongyrchol â'r rheoleiddiwr ac roeddem yn gwerthfawrogi parodrwydd Ofcom i gael trafodaeth onest ac agored.

Eleni, rhoddodd Llywodraeth Cymru ymatebion i'r ymgynghoriadau diogelwch ar-lein ac rydym yn awyddus i weld y cam nesaf o weithredu yn ogystal â'r gwerthusiad, a fydd yn hanfodol ar gyfer penderfynu a yw'r mesurau wedi gwneud y byd ar-lein yn fwy diogel i blant a phobl ifanc mewn gwirionedd. Rydym yn awyddus i gefnogi'r gwerthusiad hwn o effaith mewn unrhyw ffordd y gallwn a byddai gennym ddiddordeb deall mwy am y broses werthuso arfaethedig. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad Ofcom i barhau â phartneriaethau rhyngwladol yn y maes hwn – mae'r her diogelwch ar-lein yn un fyd-eang ac mae dull rhyngwladol, cydweithredol yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â hi.

Rydym yn cytuno â'r farn bod angen gwella prosesau cymedroli cynnwys ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn ymwybodol o nifer o enghreifftiau o sefydliadau ac unigolion trydydd sector yn cael eu targedu gan sylwadau atgas ac aflonyddu, gyda champau annigonol yn cael eu cymryd gan blatfformau i ddileu sylwadau neu gosbi'r cyfrifon sy'n postio'r gamdriniaeth atgas. Mae methu â gweithredu'n briodol yn rhoi anogaeth i'r cyfrifon sy'n postio ac yn lledaenu cynnwys atgas anghyfreithlon (gan gynnwys gwybodaeth ffug a chamarweiniol), ac mae angen gweithredu ar frys i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel i fod ar-lein heb gael eu targedu. Mae hyder y cyhoedd yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023 a'r modd y mae Ofcom yn ei rheoleiddio yn dibynnu ar weithredu'n effeithiol mewn modd sy'n gwella diogelwch i ddefnyddwyr yn amlwg. Byddem yn croesawu ymgysylltu parhaus ynghylch dulliau o nodi effaith platfformau ar gymunedau a hyrwyddo ymdrechion gorfodi/gweithredu a wneir gan Ofcom.

O ran llythrennedd yn y cyfryngau, cyfrannodd Llywodraeth Cymru ymateb i'r ymgynghoriad ar sut i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau a byddwn yn awyddus i weld yr argymhellion terfynol ar gyfer llwyfannau a gwasanaethau. Bydd gennym ddiddordeb mewn archwilio beth allwn ni ei wneud i gefnogi ysgolion yng Nghymru i hyrwyddo'r sgil hanfodol hon. Ar wahân, rydym yn parhau i ddatblygu ein menter llythrennedd yn y cyfryngau beilot ein hunain ar gyfer oedolion, gan ddefnyddio fframwaith canlyniadau llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom. Rydym yn gobeithio gallu rhannu canfyddiadau ag Ofcom i wella dealltwriaeth ymhellach.

O ystyried pa mor amlwg y mae twyllwbybodaeth a chamwybodaeth yn ymddangos yn 'Gweledigaeth Gadarnhaol ar gyfer Llythrennedd yn y Cyfryngau', byddem yn croesawu cyfeiriad penodol at waith yn y flwyddyn i ddod i gefnogi pobl i nodi gwybodaeth anghywir a chamarweiniol yn fwriadol ar-lein – y tu hwnt i unrhyw waith a wneir yn benodol ynghylch etholiadau.

Rydym yn aml yn defnyddio ymchwil Ofcom i lywio ein gwaith; rydym yn ei weld yn amhrisiadwy felly rydym yn gobeithio gweld hyn yn parhau y flwyddyn nesaf. Rydym yn gwerthfawrogi ychwanegiad diweddar gweminarau lle mae prif uchafbwyntiau yn cael eu rhannu gan nad yw'r amser i ddarllen adroddiadau llawn bob amser ar gael ar unwaith. Lle bo'n bosibl, hoffem weld dadansoddiad mwy manwl o wybodaeth fel y gellid echdynnu ffigurau penodol ar gyfer Cymru.

O ystyried y defnydd a'r camddefnydd eang o AI sy'n effeithio ar ddiogelwch ar-lein a llythrennedd yn y cyfryngau, byddwn yn awyddus i weld y diweddariad ar sut y bydd Ofcom yn rheoleiddio AI pan fydd ar gael y flwyddyn nesaf.

Mae gennym ddiddordeb mewn deall pa rôl y gallai Ofcom ei chwarae wrth gefnogi cynlluniau Llywodraeth y DU i wahardd apiau noethi. Er bod y cyhoeddiad hwn wedi dod ar ôl i'r ddogfen ymgynghori ar y Cynllun Gwaith gael ei chyhoeddi, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth ychwanegol wrth iddi ddod ar gael.

Mae'r Tîm Cadernid Digidol mewn Addysg yn nodi y bydd Ofcom yn gweithio gyda'r Llywodraeth i baratoi ar gyfer dyletswyddau newydd gan gynnwys y Bil Seiberddiogelwch a Chadernid a bydd gennym ddiddordeb mewn dysgu mwy wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Er y bydd hyn yn fater a gedwir yn ôl, bydd gennym ddiddordeb yng Nghymru er mwyn sicrhau bod meysydd polisi sydd â diddordeb mewn seiberwydnwch yn barod ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon ac yn deall y rheoliadau cysylltiedig.

O ran yr adran o'r enw 'Cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon yn fwy effeithiol' (tudalen 16), rydym yn sylwi ei bod yn sôn am derfysgaeth a chynnwys casineb anghyfreithlon. Fodd bynnag, tybed a ellid cyfeirio'n benodol at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) a mathau tebyg o ddeunydd anghyfreithlon yma hefyd. Er bod yr adran hon wedi'i lleoli rhwng 'Atal achosion o gam-drin plant yn rhywiol a meithrin perthnasoedd amhriodol' a chyn 'Profiadau mwy diogel i fenywod a merched', rydym yn credu y byddai'n fuddiol i'r adran hon gyfeirio'n gliriach at gynnwys anghyfreithlon sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

Rydym yn awyddus i Ofcom barhau i roi adborth am weithredu'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Rydym yn gwerthfawrogi'r agwedd agored a gymerwyd hyd yma ac yn croesawu parodrwydd Ofcom i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill.

Mae gwella llythrennedd yn y cyfryngau a meddwl beirniadol dinasyddion yn bwysig iawn ac rydym yn croesawu ymrwymiad Ofcom i gefnogi gwaith llythrennedd yn y cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi ymgysylltiad parhaus Ofcom ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru o ran llythrennedd yn y cyfryngau. Bydd cyfathrebu gweithgareddau a chanfyddiadau'r rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yn rhagweithiol ar gyfer ystod eang o randdeiliaid yn helpu i sicrhau bod enghreifftiau arfer da o'r hyn sy'n gweithio yn gallu parhau i gael eu rhannu ac adeiladu arnynt.

Rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad Ofcom i ddeall effaith datblygiadau mewn Deallusrwydd Artiffisial ar y sectorau rydych chi'n eu rheoleiddio. Fel rhan o hyn, byddem yn awyddus i Ofcom ystyried effaith Deallusrwydd Artiffisial ar lythrennedd yn y cyfryngau a ffyrdd y gellir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i gefnogi cynnydd mewn sgiliau llythrennedd yn y cyfryngau.

Galluogi Gwasanaethau Di-wifr yn economi'r DU

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i archwilio sut y gallai rhannu'r sbectrwm wella cysylltedd mewn ardaloedd gwledig. Mae gan hyn y potensial i gysylltu safleoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ledled Cymru, a byddem yn hapus i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae rhwymedigaethau cynnig darpariaeth sy'n gysylltiedig ag ocsiynau sbectrwm wedi helpu i ysgogi gwelliannau mewn darpariaeth dyfeisiau symudol yn y gorffennol a dylid eu hystyried eto lle bo'n briodol. Gallai cymhellion ariannol hefyd helpu i ymestyn cysylltedd dyfeisiau symudol i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar hyn o bryd, er enghraifft, lleihau ffioedd ocsiwn neu ffioedd trwydded blynyddol yn gyfnewid am ymrwymadau i ehangu'r ddarpariaeth wledig. Dylid monitro cynnydd er mwyn sicrhau bod ymrwymadau'n cael eu cyflawni. Byddai dull o'r fath yn gofyn am newidiadau i sail ocsiynau sbectrwm neu ffioedd trwydded ond gallai gynhyrchu gwelliannau sylweddol o ran darpariaeth a chefnogi mwy o degwch ledled y DU.